Amy Beatrice Carmichael 1867–1951

Sefydlydd Cymdeithas Dohnavur

Ganwyd Amy Beatrice Carmichael ar 16 Rhagfyr 1867 i deulu o Gristnogion dosbarth canol duwiol a chefnog ym Millisle, Swydd Down, Gogledd Iwerddon. Derbyniodd ei haddysg yn Marlborough House, Harrogate – ysgol breswyl a gedwid gan y Methodistiaid Wesleaidd yn Swydd Efrog – a Choleg Victoria, Belfast. Ers dyddiau ei phlentyndod roedd ganddi gariad tuag at Dduw a phan oedd yn ifanc iawn, tair neu bedair oed, byddai'n gweddïo yn ei gwely, 'Dad, tyrd i eistedd gyda mi.' Cafodd ei thanio gan lawer o syniadaeth sosialaidd ac aeth ati i sefydlu 'Neuadd Groeso' oedd yn gweithio yn arbennig gyda merched. Yma dysgodd yr egwyddor o ymddiried yn llwyr yn yr Arglwydd am gynhaliaeth ariannol, egwyddor y bu'n ei dilyn trwy gydol ei hoes. Symudodd gyda'r teulu i fyw ym Manceinion ac unwaith eto ymrodd i weithio yn y slymiau gyda Frank Crossley. Ym 1888 aeth am y tro cyntaf i'r Keswick Convention gan ddod yn gyfaill oes i un o'r sylfaenwyr sef Robert Wilson. O ganlyniad dewiswyd hi fel y cenhadwr cyntaf a noddwyd gan Keswick ac ym 1893 hwyliodd i Siapan. Bu'n rhaid iddi ddychwelyd adref o fewn blwyddyn oherwydd salwch. Derbyniwyd hi gan Gymdeithas Genhadol Zenana yn Eglwys Loegr ym 1895 ac aeth i weithio yn Bangalore, India. Ymsefydlodd yn ardal Tinefeli gan ymuno â'r Parch. Walker a'i briod yn eu gwaith efengylu. Ymhen dim yr oedd Amy wedi cynnull nifer o ferched Cristnogol at ei gilydd dan yr enw *Starry Cluster*. Aethant o amgylch y pentrefi yn ymweld â chartrefi ac yn siarad gyda merched a phlant oedd yn barod i wrando ar yr Efengyl. Cododd trafferth mawr pan redodd dwy ferch ifanc oddi cartref i gartref y Parch. Walker gan ddweud eu bod am fod yn Gristnogion a bu'n rhaid iddynt ffoi i Dohnavur.

Yma ym 1901 yr achubodd Amy ei phlentyn teml cyntaf sef Preena. Roedd merched bach (devadasis) yn cael eu gorfodi i 'briodi' un o dduwiau'r deml. Cyflwynwyd hwy i'r deml gan un ai bâr priod mewn perthynas anhapus, gweddwon, gwragedd yr oedd eu gwŷr wedi eu gadael,

neu rieni oedd am eu rhoi er mwyn ceisio ffafriaeth gan y duwiau. Yn y deml roeddent yn cael eu hyfforddi i ganu a dawnsio, i gario'r goleuni sanctaidd ac i ddiwallu trachwant dynion trwy buteinio.

Aeth Amy ati i dderbyn plant oedd mewn perygl o fynd i wasanaethu'r deml. Prynodd ddarn o dir yng nghyffiniau Dohnavur lle yr adeiladodd y cartref cyntaf ac yn raddol agorwyd cartrefi eraill. Erbyn 1913 roedd 140 o blant yn ei gofal.

Agorodd Forest House er mwyn i weithwyr a'u plant gael encilio a chartref y Three Pavilions i blant oedd ag anableddau dwys. Ond ei menter fawr oedd yr ysbyty a elwid yn Place of Heavenly Healing. Credai yn gryf yng ngrym gweddi ac ni fyddai'n gwneud unrhyw apêl am arian ond trwy weddi. Mae ei dyddiadur yn llawn o gyfeiriadau at weddïau yn cael eu hateb. Pan adeiladwyd yr ysbyty, bu hi a'i chydweithwyr yn gweddïo am £10,000. Yn ddiweddarach ysgrifennodd yn ei dyddiadur, 'Asked for, and received according to 1 John 5: 14-15, £10,000 for the Place of Heavenly Healing.' Ym 1925 sefydlodd y Dohnavur Fellowship gyda'r bwriad o achub plant mewn perygl moesol a rhannu cariad Duw gyda phobl India. Ym 1931 cafodd ddamwain gas lle torrodd ei choes a'i ffêr. O ganlyniad i gymhlethdodau bu'n eithriadol o anabl weddill ei hoes ac yn aml yn orweddiog. Yn y cyfnod hwn ysgrifennodd nifer o lyfrau barddoniaeth a llyfrau am ei gwaith. Er bod yr arfer o 'briodi' plant i'r duwiau yn anghyfreithlon erbyn hyn y mae'n parhau mewn rhai ardaloedd. Bu farw Amy yn Dohnavur ar 18 Ionawr 1951 ac fe'i claddwyd yr un diwrnod.